

## Y neges yw ...peidiwch â llosgi sbwriel gartref, os gwelwch yn dda

Bob blwyddyn mae'r Cyngor a'r Gwasanaeth Tân yn defnyddio adnoddau gwerthfawr yn delio â thanau mewn iardiau a gerddi. Meddyliwch ddwywaith cyn llosgi. Ailgylchwch neu ceisiwch gael gwared â'ch sbwriel mewn ffordd gyfrifol - peidiwch â llosgi sbwriel o gwbl gartref. Gall fod yn anniogel, mae'n achosi llygredd ac efallai y bydd yn ANGHYFREITHLON.

### Beth sydd o'i le ynghylch llosgi sbwriel?

**Mae tanau yn achosi perygl difrifol** a gallant achosi marwolaeth, niwed neu ddifrod i eiddo pobl. Bob blwyddyn mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn mynd i lawer o ddigwyddiadau a achoswyd gan danau a gychwynnwyd yn fwriadol ond a aeth allan o reolaeth.

**Mae mwg yn creu llygredd** – mae llosgi deunyddiau gwastraff fel plastig, rwber neu bren wedi ei beintio yn niweidio ein hiechyd. Mae'r mygdarthau yn neilltuo o niweidiol i blant, yr henoed a phobl sy'n dioddef o broblemau anadlu fel asthma neu bronchitis.

**Mae mwg yn difetha bywydau pobl** – yn rhwystro cymdogion rhag mwynhau eu gerddi, hongian eu golchiad allan neu agor eu ffenestri.

## Coelcerthi Domestig a'r Gyfraith

**Niwsans Mwg (Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990)** – Os bydd mwg, arogl neu ludw yn achosi problem o hyd mewn eiddo neu ardd gerllaw, efallai y bydd yn Cyngor yn rhoi rhybudd cyfreithiol. Efallai y bydd methiant i gydymffurfio yn arwain at erlyniad.

**Llosgi Gwastraff Cartref (Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990)** – Gall llosgi gwastraff domestig e.e. plastigau, dodrefn neu eitemau rwber, fod yn drosedd a gall arwain at erlyniad a dirwy.

**Llosgi Ceblau (Deddf aer Glân 1993)** – Bydd y Cyngor yn erlyn unrhyw un a geir yn llosgi cebl wedi ei orchuddio â phlastig gyda golwg ar adfer y metel. Bydd hyn yn arwain at ddirwy o hyd at £5,000.

**Deddf Priffyrdd** – Gall unrhyw un sy'n cynnau tân gael ei ddirwyo os bydd y mwg yn lledaenu dros y ffordd ac yn achosi perygl i drafnidiaeth. Caiff hyn ei orfodi gan yr Heddlu.

Arhoswch ar ochr iawn y gyfraith. Meddyliwch ddwywaith cyn llosgi.

## Cael coelcerth yn yr ardd neu ddefnyddio Chiminea neu Bwll tân

Efallai y gellwch losgi gwastraff gardd fel priciau neu ddarnau o wrych heb achosi niwsans os bydd eich tanau'n fychan ac yn anaml, e.e. unwaith neu ddwy y flwyddyn. Osgowch dywydd mwll neu wyntog, gan na fydd y mwg yn gwasgaru'n

iawn.

Os caiff y Gwasanaeth Tân ac Achub ei alw allan efallai y byddant yn diffodd y tân os bydd yn achosi perygl.

Os oes gennych chi chiminea neu bwll tân, gwnewch yn siŵr eich bod yn defnyddio'r tanwydd cywir, os gwelwch yn dda, fel coed glân heb ei drin, tanwydd di-fwg neu siarcol. Peidiwch â llosgi gwastraff. Cofiwch, os gwelwch yn dda, y bydd defnyddio chiminea neu bwll tân yn aml yn fwy tebygol o fod yn niwsans.

## Yr Awgrymiadau Gorau:

- Os oes gennych chi ormod o wastraff, neu os yw'n rhy fawr i'ch bin, ewch ag ef i un o'n Canolfannau Gwastraff Cartref ac Ailgylchu. Gwelwch fwy o wybodaeth ar wefan y Cyngor <https://www.pembrokeshire.gov.uk/waste-and-recycling>
- Bydd y Cyngor yn casglu ac yn cael gwared â'r rhan fwyaf o wastraff cartref swmpus (e.e. dodrefn) neu eitemau eraill o'ch cartref am ffi fechan. Cwblhewch [Ffurflen Casglu Gwastraff Cartref Swmpus](#) drwy eich cyfrif Cyngor ar-lein, 'Fy Nghyfrif'.
- Ailgylchwch neu throwch wastraff gardd yn gompost gan fod hynny'n ffordd o gael gwared ohono sy'n fwy cyfeillgar i'r amgylchedd. Mae gwasanaeth casglu ar gael gan y Cyngor am ffi danysgrifio flynyddol drwy gyfrwng 'Fy Nghyfrif'.
- Os yw eich cymydog yn cynnau tân sy'n achosi problem, ystyriwch siarad ag ef - efallai nad yw'n ymwybodol o'r broblem.
- Os ydych chi'n bwriadu cynnau tân i losgi gwastraff gardd:
  - Gofynnwch i'ch cymdogion ymlaen llaw, yn enwedig os yw eu golchiad allan neu os ydynt yn mwynhau bod yn eu gerddi.
  - Lleolwch y tân yn ddigon pell oddi wrth adeiladau, coed sy'n hongian drosodd, ceblau a deunyddiau hawdd eu llosgi.
  - Peidiwch â defnyddio petrol, paraffin na 'white spirit' i gynnu tân.
  - Peidiwch â llosgi caniau erosol, tuniau paent na photeli - gallant ffrwydro a niweidio rhai sy'n sefyll gerllaw.
  - Peidiwch â llosgi rwber na phlastig, sbwng na phaent, a pheidiwch â llosgi eich gwastraff cartref cyffredinol.
  - Rhwygwch ddogfennau cyfrinachol yn ddarnau mân, peidiwch â'u llosgi.
  - Diffoddwch y tân os bydd mwg neu falurion yn cael eu chwythu dros adeiladau cyfagos. Cadwch bwcedaid o ddŵr / tywod neu beipen ddŵr gerllaw rhag ofn achos brys.
  - Osgowch losgi ar benwythnosau a gwyliau banc pan fydd pobl yn ceisio mwynhau eu gerddi.
  - Peidiwch byth â gadael tân heb neb yn ei wyllo na'i adael i fudlosgi.